**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 12 Gorffennaf 2021 am 2.00 pm**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W G Lewis (Cadeirydd) fu'n llywyddu

**Sefydliadau â Chynrychiolwyr**

| | |
|---|---|
| Bethan Dennedy | Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Prif Is-swyddog Rob Evans | HMS Cambria |
| Arweinydd Sgwadron Phil C Flower | Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cangen Abertawe |
| Steve Fry | Dirprwy Raglaw |
| David Griggs | Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd |
| Sarah Mallaghan | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Julian North | Help for Heroes |
| Steve Spill | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| Stephen Sullivan | Hafal |
| Yasmin Todd | Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol – Plant y Lluoedd Arfog (Gorllewin Cymru) |
| Neil Tomlin | Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol |
| Capten Huw Williams | Sgwadron 157 |
| John Williams | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Victoria Williams | Cyn-filwyr GIG Cymru |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Dan Garnell | Cydlynydd Ardal Leol ar gyfer Marina Abertawe, Brunswick a Sandfields |
| Spencer Martin | Cydlynydd Comisiynu'r Trydydd Sector a Chronfeydd Ymddiriedolaeth |
| Emma Thomas | Digwyddiadau Arbennig |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Alyx Baharie, Rob Denman, Caryn Furlow, Louise Fleet, Thomas Hall, Debbie Hamer, Rhodri Jones, Christine Morrell, Councillor Alyson Pugh, Nick Vanderpump a Melvin Watts

---

## 106 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Dim.

**107 Cofnodion.**

Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion y panel a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2021 fel cofnod cywir

**108 Prosiect Boots on the Ground.**

Nododd y Cadeirydd fod Melvin Watts wedi anfon ei ymddiheuriadau i'r cyfarfod, yn dilyn profedigaeth deuluol ddiweddar.

Byddai'r eitem yn cael ei gohirio tan gyfarfod mis Tachwedd.

**109 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.**

Dywedodd Bethan Dennedy y byddai'n dechrau ei swydd newydd fel swyddog cyswllt rhanbarthol y lluoedd arfog yn ffurfiol yr wythnos nesaf.

Roedd hi'n edrych ymlaen at weithio gydag aelodau'r panel.

**110 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn.**

Dywedodd Capten Huw Williams fod y milwyr wrth gefn wedi dychwelyd i hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ddiweddar a oedd yn cydymffurfio'n llawn â COVID.

Cyfeiriodd at y grŵp "croesi ffiniau" sy'n cyfarfod ddydd Gwener, gyda'r bwriad o ddechrau menter dros fisoedd yr haf i gysylltu â grwpiau cymunedol lleol. Dywedodd y byddai'n hapus i gynorthwyo unrhyw aelodau o'r panel a grwpiau i gymryd rhan.

**111 Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe - Fforwm y Lluoedd Arfog.**

Dywedodd Steve Spill fod y bwrdd iechyd wedi cynnal ei gyfarfod ym mis Mai, ac roedd presenoldeb yn y cyfarfod yn dda.

Amlinellodd fod yr awdurdod yn cynnal arolwg staff o'i 12,500 o staff ar hyn o bryd, a rhan o waith yr arolwg yw cadarnhau faint o staff sydd ag unrhyw gysylltiadau milwrol a chefndir milwrol.

Nododd fod y tîm prosthetig wedi cyflogi sawl aelod o staff ychwanegol yn ddiweddar, sydd wedi cynyddu eu gallu i gynorthwyo gyda chyn-filwyr a'r cyhoedd.

Amlinellodd ei fod wedi mynd i seremoni codi'r faner yng Nghastell-nedd ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog.

Amlinellodd Victoria Williams ei bod wedi derbyn 34 o atgyfeiriadau i'w gwasanaeth, yr oedd 27 ohonynt wedi dewis defnyddio'r gwasanaeth drwy'r gwasanaeth ar-lein newydd ac maent yn cadw mewn cysylltiad â'i thîm.

Amlinellodd fod y ddarpariaeth ddigidol newydd yn gweithio'n dda.

Amlinellodd ei bod wedi cynnal cyfweliadau radio gyda'r Wave o gwmpas Diwrnod y Lluoedd Arfog, a chyfeiriodd at brosiect rhandir ym Maglan sydd wedi'i sefydlu gyda chymorth clwb Bulldogs.

**112 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.**

Adroddodd Yasmin Todd fod nifer y plant lluoedd arfog a nodwyd yn ysgolion Abertawe wedi codi i 114 mewn 34 o ysgolion, mae hyn yn gynnydd mawr o'r 92 a fu ar adeg y cyfarfod diwethaf ac amlinellodd ei bod wedi ymweld ag 20% o'r ysgolion yn Abertawe hyd yma, yn ogystal ag ysgolion mewn ardaloedd eraill.

Nododd fod 6 ysgol yn Abertawe yn cymryd rhan mewn sesiynau DPP ar hyn o bryd. Lansiwyd y sesiynau hyn ym mis Ebrill sef mis y plentyn milwrol.

Soniodd am y nod a'r uchelgais i greu rhwydwaith gwasanaeth rhwng ysgolion yn y flwyddyn ysgol newydd.

Amlinellodd ei bod yn aros am gadarnhad ynghylch cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith a chyswllt ychwanegol rhwng ysgolion

**113 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.**

<u>Y Lleng Brydeinig Frenhinol</u>
Amlinellodd yr Arweinydd Sgwadron Phil Flower, fod Cyngor Abertawe wedi cymeradwyo cynllun diwygiedig Cadetiaid yr Arglwydd Faer yn ddiweddar, lle penodir 1 cadét o bob un o'r lluoedd.

Amlinellodd ei fod yn disgwyl i cyhoeddiad a chynigion ar gyfer Wythnos y Cofio cyn bo hir. Bydd llawer yn dibynnu ar unrhyw gyfyngiadau ar y pryd.

Amlinellodd fod trafodaethau'n parhau gyda Chyngor Abertawe ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog 2022 a'r Sioe Awyr. Bydd angen trafodaethau pellach gyda'r gwahanol grwpiau milwyr wrth gefn ynghylch y cynigion ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Amlinellodd y potensial ar gyfer ehangu digwyddiad Diwrnod y Lluoedd Arfog.

<u>Cyngor Abertawe</u>
Nododd Emma Thomas y byddai angen i'r Sioe Awyr/Diwrnod y Lluoedd Arfog gael eu cynnal ar yr un penwythnos am resymau logistaidd.

Nododd hi a'r Cadeirydd fod y seremoni codi'r faner ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog eleni wedi gweithio'n dda iawn, ac y gellid ei hailadrodd yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiadau, cyfeiriodd y Cadeirydd at y digwyddiadau amrywiol a gynhaliwyd dros wythnos y lluoedd arfog, y bu'r rhan fwyaf ohonynt ar-lein oherwydd y cyfyngiadau.

Amlinellodd y Cadeirydd hefyd fod yr awdurdod wedi cytuno i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw'r holl gofebion yn ei ardal yn y dyfodol. Dylai hyn fod o gymorth mawr i'r gwahanol grwpiau cyn-filwyr wrth symud ymlaen.

Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Amlinellodd Sarah Mallaghan fod ei sefydliad wedi sefydlu 11 o arweinwyr y lluoedd arfog ledled y DU, gyda 3 yng Nghymru. Hi yw pencampwr cyn-filwyr yr ardal hon.

Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd (SSAFA)
Nododd David Griggs fod canghennau Caerfyrddin a Gorllewin Morgannwg bellach wedi uno, a'u bod yn cael eu rhedeg o'r safle yn Alamein Road yn Abertawe.

Dywedodd ei fod yn mynd i’w gyfarfod cyntaf o'r grŵp hwn ac yn edrych ymlaen at weithio gydag aelodau'r panel.

Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol
Amlinellodd Neil Tomlin y cynhyrchwyd canllaw diwygiedig wedi'i ddiweddaru i'w gwasanaethau’n ddiweddar a'i fod yn hapus i'w rannu ag aelodau'r panel yr oedd ei angen arnynt.

Amlinellodd fod y cyswllt a sefydlwyd gyda'r gwasanaeth carchardai ar ôl y cyfarfod blaenorol wedi bod yn gweithio'n dda iawn.

Mae cysylltiadau'r grŵp â'r GIG yn parhau i ehangu hefyd.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.38 pm

**Cadeirydd**